Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Materion Ewrop

Cynhyrchwyd gan Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rhifyn 14_Gorffennaf/Awst

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn Eisteddfod Llangollen.
(O'r chwith i'r dde): Rhes gefn: **Mervyn Cousins** – Cyfarwyddwr Gweithredol yr Eisteddfod, **Terry Waite CBE** – Llywydd yr Eisteddfod, **Michael German AC**, **Mike Pugh** - Maer Llangollen, **Phillip Davies** – Cadeirydd yr Eisteddfod. Rhes flaen: **Rhodri Glyn Thomas AC**, **Sandy Mewies AC** – Cadeirydd y Pwyllgor, **Janet Ryder AC** – Cadeirydd Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, **Mrs Pugh** – gwraig y Maer, **Rogiero Verma** – Cymdeithas Frenhinol y Gymanwlad, Cymru.

Cyflwyniad

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r pedwerydd rhifyn ar ddeg o Materion Ewrop, sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf am waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â materion Ewropeaidd.

Wrth i ni gyrraedd diwedd tymor yr haf, hoffwn achub ar y cyfle i edrych yn ôl ar ein gwaith yn 2009, ac hefyd i ddiolch yn arbennig i Bwyllgor y Rhanbarthau am gael defnyddio eu cyfleusterau fideo gynadledda ym Mrwsel ar gyfer dwy o'n sesiynau tystiolaeth. Dyma enghraifft ymarferol o gydweithredu Ewropeaidd.

Bu'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn canolbwyntio'n benodol ar ddau fater o bwys i Gymru. Ar 14 Gorffennaf, cymeradwyodd y Pwyllgor adroddiad dros dro ar ei ymchwiliad i'r Gyfarwyddeb ddrafft ar hawliau cleifion mewn gofal iechyd trawsffiniol. Mae'r adroddiad yn galw am sicrhau bod y trafodaethau ym Mrwsel yn ystyried y systemau gofal iechyd datganoledig sy'n bodoli mewn nifer o Aelod-Wladwriaethau, fel system y GIG yng Nghymru o fewn y DU. Rydym hefyd wedi amlygu pryderon ynghylch effaith bosibl y gallai'r Gyfarwyddeb ei chael ar ddarparu'r gwasanaeth yng Nghymru, ansicrwydd ynghylch gwneud iawn cyfreithiol os oes problemau'n codi wrth i gleifion o Gymru gael triniaeth y tu allan i'r DU, a sicrwydd na fydd y Gyfarwyddeb yn creu anghydraddoldebau wrth gael mynediad at wasanaethau.

Rydym wedi cynnal pedair sesiwn dystiolaeth ar gyfer ein hymchwiliad i ddyfodol Polisi Cydlyniant yr UE, ac yn bwriadu cymeradwyo adroddiad ac argymhellion erbyn diwedd 2009. Bydd hyn yn cyd-fynd â phenodi Comisiynydd Materion Rhanbarthol nesaf yr UE. Mae hon yn ddogfen allweddol i Gymru, yn enwedig yng nghyd-destun y dirywiad economaidd a'i effaith ar Gymru a gweddill Ewrop.

Mae'n bleser gallu dweud bod y Pwyllgor yng nghanol y trafod yn Ewrop, gan i ni glywed tystiolaeth gan Danuta Hübner, y Cyn-Gomisiyndd, Graham Meadows, Cyn-Gyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol ar Bolisi Rhanbarthol, a nifer o randdeiliaid allweddol eraill ym Mrwsel a Chymru.

Byddwn yn cynnal sesiynau tystiolaeth eraill yn yr hydref, wrth i ni edrych ar ddyfodol Strategaeth Lisbon, sy'n berthnasol iawn i ddyfodol Polisi Cydlyniant yr UE. Gobeithiwn hefyd y cawn y newyddion diweddaraf gan Christine Chapman, cynrychiolydd llawn y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau, am ei barn ar ddyfodol Strategaeth Lisbon. Disgwylir y bydd Pwyllgor y Rhanbarthau yn cymeradwyo ei hadroddiad ym mis Rhagfyr.

Gyda'r etholiadau Ewropeaidd ym mis Mehefin, a phenodi Comisiwn Ewropeaidd newydd cyn diwedd y flwyddyn, mae 2009 wedi bod yn flwyddyn o newid, ac i Gymru, mae hyn wedi golygu bod gennym bedwar Aelod newydd i Senedd Ewrop, gyda thri ohonynt yn dechrau am y tro cyntaf ym Mrwsel. Edrychwn ymlaen at weithio'n agos gyda hwy ar faterion sydd o bwys i Gymru.

Sweden fydd yn arwain Llywyddiaeth yr UE yn ail hanner 2009, a bydd y Llywyddiaeth yn canolbwyntio ar yr economi, cyflogaeth a'r hinsawdd. Y prif fater arall fydd yr ail refferendwm yn Iwerddon ar ddyfodol Cytuniad Lisbon, yn dilyn cytuno ar nifer o gamau sy'n lleddfu pryderon y Gwyddelod yn ystod cyfarfod o'r Cyngor Ewropeaidd ym mis Mehefin. Gallai sicrhau pleidlais "ie" arwain at gadarnhau'r cytuniad cyn diwedd y flwyddyn. Gallai hyn fod â goblygiadau uniongyrchol i Gymru drwy gyfrwng "Protocol Sybsidiaredd" newydd, a fydd yn cyflwyno proses ymgynghori ffurfiol gyda seneddau cenedlaethol – ac, yn ôl y gofyn, gyda seneddau rhanbarthol sydd â

phwerau deddfwriaethol, a fyddai'n cynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru – ar holl ddeddfwriaeth ddrafft yr Undeb Ewropeaidd.

Cynhaliodd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ymchwiliad i "sybsidiaredd" ddiwedd 2008, gan gyhoeddi adroddiad ym mis Mawrth 2009, ac rydym yng nghanol trafodaethau gyda'n cydweithwyr yn Senedd y DU, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon ynghylch sut y byddai'r protocol newydd hwn yn gweithio yn y DU.

Ym mhwyllgorau eraill y Cynulliad, cyhoeddodd y Pwyllgor Menter a Dysgu ei adroddiad ar effaith y dirywiad economaidd ar economi Cymru, bu'r Pwyllgor Cynaliadwyedd yn cymryd tystiolaeth ar ei ymchwiliad i lifogydd yng Nghymru, ac mae'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig wedi cyhoeddi ei adroddiad ar yr ymchwiliad i gynhyrchu a hybu bwyd Cymreig.

Ym mis Mai, cymeradwyodd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth adroddiad ar graffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig, sy'n cynnwys adran ar drosi cyfarwyddebau'r UE yng Nghymru.

I gloi, roedd hi'n bleser mynd i stondin y Cynulliad Cenedlaethol yn Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, a hynny gyda Mike German OBE a Rhodri Glyn Thomas, fy nghyd-aelodau ar y Pwyllgor. Roedd hi'n anrhydedd clywed Terry Waite CBE, Llywydd yr Eisteddfod, yn siarad ar y thema 'Un Byd, Un Weledigaeth, Un Ieuenctid', a chynhaliwyd sesiwn holi gyhoeddus ar waith cysylltiadau allanol y Pwyllgor.

Sandy Mewies
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

Busnes yn ymwneud â'r UE ym Mhwyllgorau'r Cynulliad

Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

– **Ymchwiliad i hawliau cleifion mewn gofal iechyd trawsffiniol**: cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad dros dro ar 14 Gorffennaf

– **Ymchwiliad i ddyfodol polisi cydlyniant yr UE**: clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Business Europe a chynrychiolwyr o Saxony Anhalt yn ystod ei gyfarfodydd ym mis Mehefin

– **Llywyddiaeth Sweden**: Mynychodd Ei Arddechogrwydd Staffan Carlsson, Llysgennad Sweden i'r DU, y cyfarfod ar 14 Gorffennaf i roi gwybod i'r Pwyllgor am flaenoriaethau Sweden ar gyfer cyfnod ei Llywyddiaeth o'r UE, sy'n para o 1 Gorffennaf tan diwedd 2009

– **Y Cyngor Prydeinig**: croesawodd y Pwyllgor gynrychiolwyr o Gyngor Prydeinig Cymru a'r Cyngor Prydeinig i drafod eu gwaith ar faterion rhyngwladol sy'n berthnasol i Gymru

Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

– **Hybu celfyddydau a diwylliant Cymru ar lwyfan y byd**: mae adroddiad y Pwyllgor, a gyhoeddwyd ar 15 Gorffennaf, yn galw am gynllun strategol i gydlynu hybu celfyddydau a diwylliant Cymru ar lefel ryngwladol, gan gydnabod y buddion cymdeithasol ac economaidd a ddaw yn sgil hyn.

Y Pwyllgor Menter a Dysgu

– **Creu swyddi yn yr economi werdd**: mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal ymchwiliad i'r maes hwn, fel ymchwiliad dilynol i'w ymchwiliad i ymateb Llywodraeth Cymru i'r dirywiad economaidd rhyngwladol, ac i gyfrannu at y ddadl ar roi Strategaeth Swyddi Gwyrdd i Gymru ar waith

– **Cyfraniad economaidd addysg uwch yng Nghymru**: yn dilyn yr adroddiad dros dro a gyhoeddwyd ym mis Ionawr eleni, bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad a'i argymhellion terfynol yn yr hydref

Y Panel Adolygu Annibynnol ar Gymorth Ariannol i Aelodau

– **Adolygiad o'r cymorth ariannol a roddir i Aelodau'r Cynulliad**: cyhoeddodd y Panel Adolygu Annibynnol ei adroddiad "Yn Gywir i Gymru", sef ei adolygiad o'r lwfansau a'r treuliau a roddir i Aelodau'r Cynulliad. Cytunodd Comisiwn y Cynulliad yn unfrydol ar argymhellion yr adroddiad ar 9 Gorffennaf. Mae'r adolygiad yn cynnwys gwybodaeth am y prosesau o roi cydnabyddiaeth ariannol i aelodau etholedig sy'n bodoli mewn nifer o gyrff deddfwriaethol is-genedlaethol yn Ewrop

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

– **Ymchwiliad i lifogydd yng Nghymru**: mae'r ymchwiliad hwn yn parhau, a bydd yn clywed tystiolaeth bellach yn ystod tymor yr hydref

Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

– **Ymchwiliad i gynhyrchu a hybu bwyd o Gymru**: lansiodd y Pwyllgor ei adroddiad ar yr ymchwiliad hwn yn Sioe Amaethyddol Cymru yn Llanelwedd ar 21 Gorffennaf

– **Ymchwiliadau'r dyfodol**: bydd yr Is-bwyllgor yn cynnal ymchwiliadau i ddyfodol yr uwchdiroedd ac i'r diwydiant llaeth yng Nghymru yn ystod tymor yr hydref. Bydd rhagor o wybodaeth amdanynt ar gael dros yr haf

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

– **Ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig**: ym mis Mai, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar yr ymchwiliad hwn, sy'n cynnwys pennod ar weithredu deddfwriaeth Ewropeaidd yn y DU a Chymru. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth yn nodi ymrwymiad Llywodraethau'r DU a'r Alban i roi gwybodaeth gliriach a gwell ar weithredu deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd, ac mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai'r Cynulliad a'r cyhoedd ar eu hennill petai Llywodraeth Cymru'n mabwysiadu dull tebyg. Mae'r adroddiad yn nodi sut y gall y Pwyllgor weithio ar y cyd â'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol i fonitro trosi deddfwriaeth yr UE sydd yn berthnasol i Gymru, a gwneud y broses yn fwy tryloyw.

Gweithgareddau allanol Aelodau mewn perthynas â busnes y Cynulliad

– Ar 15-19 Mehefin, aeth grŵp trawsbleidiol o Aelodau'r Cynulliad – Rosemary Butler, y Dirprwy Lywydd, Alun Cairns, Jeff Cuthbert, Mike German, David Melding a Janet Ryder – i Geurnsey i gymryd rhan yn neugeinfed Cynhadledd Flynyddol **Ynysoedd Prydain a Rhanbarthau Môr y Canoldir.**

– **Pwyllgor y Rhanbarthau**: aeth Christine Chapman i gyfarfod o ddirprwyaeth y DU yn Llundain ar 22 Mehefin 2009, yn ogystal â chyfarfod rhanddeiliaid ar Strategaeth Lisbon a drefnwyd gan yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio. Ar 2 Gorffennaf, aeth i gyfarfod o'r Comisiwn ECOS ym Mrwsel. Yn ystod y cyfarfod, cyfarfu â chynrychiolwyr o nifer o ranbarthau'r UE, swyddogion y Comisiwn a swyddogion Llywodraeth y DU fel rhan o'r gwaith paratoadol ar gyfer ei hadroddiad ar ddyfodol Strategaeth Lisbon ar ôl 2010.

– Ar 7-8 Gorffennaf, aeth Rosemary Butler, y Dirprwy Lywydd, i gyfarfod **Pwyllgor Sefydlog y Gynhadledd o Gynulliadau Rhanbarthol Deddfwriaethol Ewropeaidd** yn Fenis, a oedd yn trafod rhaglen waith Llywyddiaeth Tyrol ar gyfer 2009.

– Ar 10 Gorffennaf, aeth Sandy Mewies, Mike German OBE a Rhodri Glyn Thomas i **Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen**.

Ymwelwyr rhyngwladol â'r Senedd

– Ar 10 Mehefin, cynhaliwyd derbyniad yn y Senedd ar ran y Cyngor Prydeinig i **Ysgolheigion Chevening**

– Ar 18 Mehefin, ymwelodd Mr Bobby McDonagh, **Llysgennad Iwerddon** i'r DU, â'r Senedd. Cyfarfu'r Aelod Cynulliad Mark Isherwood ag ef.

– Ar 22 Mehefin, ymwelodd dirprwyaeth o **Undeb Iechyd Cuba** â'r Cynulliad am gyfres o gyfarfodydd a thaith o'r Senedd

– Ar 29 Mehefin, trefnodd y Cynulliad ymweliad gan ddirprwyaeth o **Senedd Cenia a Chynulliad Deddfwriaethol Dwyrain Affrica**, a ddaeth i ddysgu am system bleidleisio electronig y Cynulliad. Trefnwyd yr ymweliad gan Sefydliad San Steffan er lles Democratiaeth.

– Ar 8 Gorffennaf, trefnodd y Cynulliad ymweliad gan yr Anrhydeddus Barry House MLC, Llywydd Cyngor Deddfwriaethol **Senedd Gorllewin Awstralia**

– Ar 9 Gorffennaf, trefnodd Grŵp Prydeinig yr Undeb Rhyng-Seneddol ymweliad gan ddirprwyaeth o **Senedd Ynysoedd y Philippines** â'r Cynulliad

– Ar 13 Gorffennaf, trefnwyd taith o'r Senedd i Mr Arnold Footee, **Llywydd Ffederasiwn Byd-eang o Gonsyliaid**

– Ar 14 Gorffennaf, ymwelodd Mr Harry Jenkins AS, **Llefarydd Senedd Awstralia**, â'r Cynulliad ar gyfer cyfres o gyfarfodydd. Cyfarfu â Rosemary Butler, y Dirprwy Lywydd, a dau ao Aelodau'r Cynulliad, Jeff Cuthbert a Mike German OBE.

Lincs
– Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru
– Hysbysiad Busnes y Cynulliad
– Tudalennau'r Pwyllgorau
– Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

Am ragor o wybodaeth–

Cysylltwch â:
Gregg Jones, Pennaeth y Swyddfa (Gregg.Jones@wales.gsi.gov.uk)
Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad)
Tŷ Cymru
6th Floor
Rond Point Schuman 11
1040 Bruxelles
Belgium
Ffôn: 0032 2 226 66 92

Neu
Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cysylltiadau Allanol
Tŷ Hywel (3ydd Llawr)
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 0044 (0)29 2089 8642/8897
archebu@cymru.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn anfon yr e-bost hwn atoch gan ein bod yn credu y bydd o ddiddordeb i chi. Os nad ydych am i ni anfon rhifynnau eraill o'r cylchlythyr atoch, neu os nad ydych wedi cael yr e-bost hwn yn uniongyrchol ac yn awyddus i ni ychwanegu'ch enw at y rhestr bostio, anfonwch e-bost at Gregg Jones.